O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 626 (Cy. 172)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed	*1 Mehefin 2016*
Yn dod i rym	*6 Mehefin 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd ar Ynys Môn a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, gael ei yrru, ar hyd naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 7, nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y lôn allanol o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

(2) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 7, nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y lôn allanol o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Atal Dros Dro

6. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Caergybi, Ynys Môn) (Terfyn Cyflymder 50 mya a Gwahardd Cerddwyr) 2001**(3)** wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny y mae'r gwaharddiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016**(4)** hefyd wedi eu hatal dros dro yn ystod cyfnod y gwaith.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.

Dyddiedig 1 Mehefin 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2001/1633 (Cy. 111)
(4) O.S. 2016/256 (Cy. 90)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 557 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 4.894 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).